| | |
|---|---|
| Cyfarfod | Pwyllgor Craffu Gofal |
| Dyddiad | 30ain Ionawr 2020 |
| Teitl | Dementia |
| Awdur | Mari Wynne Jones, Uwch Reolwr Oedolion |
| Aelod | Dafydd Meurig, Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |

1. Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Cyflwynir yr adroddiad hwn i'r Pwyllgor Craffu Gofal er gwybodaeth ac i godi ymwybyddiaeth o'r cyflwr Dementia gan roi trosolwg i Aelodau o'r hyn sydd ar waith yng Ngwynedd i sicrhau cefnogaeth a gwasanaethau i unigolion sydd yn byw gyda Dementia.

2. Cyflwyniad

<u>Beth ydi Dementia?</u>

2.1 Mae dementia yn salwch dinistriol, sy'n fwy na dim ond colli'r cof. Mae'n glefyd dirywiol ar yr ymennydd sy'n cyfyngu ar fywyd ac yn effeithio ar bob rhan o allu corfforol, gwybyddol, emosiynol a chymdeithasol unigolyn[1].

2.2 Mae dementia yn gyflwr cynyddol sy'n gwaethygu dros amser, ac mae'n rhaid i berson sydd â dementia ddibynnu fwyfwy ar ofalwyr wrth i'r cyflwr ddatblygu. Nid oes gwellhad er bod triniaethau sy'n gallu arafu datblygiad rhai mathau o gyflyrau mewn rhai achosion.

<u>Adnabod maint yr her</u>

2.3 Mae disgwyl i'r niferoedd sy'n cael diagnosis o ddementia gynyddu dros amser, a gwelir yn ddiweddar bod mwy o oedolion ifanc (dan 65 oed) yn derbyn diagnosis o Ddementia. Mae effaith dementia yn sylweddol ar unigolion, eu teuluoedd a ffrindiau ac yn rhoi pwysau mawr ar wasanaethau statudol Iechyd a Gofal a'r trydydd sector.

2.4 Yn ôl amcangyfrifon mae dros 45,000 o bobl yng Nghymru yn byw gyda dementia ar hyn o bryd, ac mae disgwyl y bydd y ffigwr hwn yn fwy na 55,000 erbyn 2021. Erbyn 2055, amcangyfrifir y bydd dros 100,000 o bobl yng Nghymru yn byw gyda dementia.

2.5 O'r cyfanswm o 45,000 o bobl yng Nghymru sy'n byw gyda dementia, amcangyfrifir bod tua dwy ran o dair ohonynt yn byw yn y gymuned, ac un rhan o dair yn byw mewn cartrefi gofal neu breswyl[2].


---

[1] Llywodraeth Cymru (2016). Dementia: mwy na dim ond colli'r cof.
[2] Cymdeithas Alzheimer's (2015), Diagnose or disempower? Receiving a diagnosis of dementia in Wales.

2.6 Wrth i bobl fyw yn hŷn, mae nifer yr achosion o ddementia yn debygol o gynyddu. Dengys Ffigwr 1 a Thabl 1 y cynnydd, a rhagwelir y bydd y nifer o bobl hŷn gyda dementia yng Ngogledd Cymru yn cynyddu 72% rhwng 2015 a 2035. Fodd bynnag mae astudiaeth ddiweddar yn awgrymu na fydd y 'ffrwydriad' a ragwelir mewn nifer yr unigolion sydd yn byw gyda dementia mor ddifrifol â'r hyn a ragdybiwyd.

**Ffigwr 1: Nifer y bobl 65 oed a throsodd y rhagwelir y bydd ganddynt ddementia, awdurdodau unedol Gogledd Cymru, 2015 i 2035**

Ffynhonnell: Uned Data Ystadegol Llywodraeth Cymru; Daffodil




**Tabl 1: Nifer y bobl 65 oed a throsodd y rhagwelir y bydd ganddynt ddementia, Gogledd Cymru ac awdurdodau unedol, 2015 i 2035**

| | 2015 | 2020 | 2025 | 2030 | 2035 |
|---|---|---|---|---|---|
| BIPBC | 10,530 | 11,951 | 13,839 | 16,039 | 18,094 |
| Ynys Môn | 1,174 | 1,338 | 1,557 | 1,792 | 1,993 |
| Gwynedd | 1,927 | 2,115 | 2,360 | 2,664 | 2,923 |
| Conwy | 2,276 | 2,509 | 2,828 | 3,212 | 3,594 |
| Sir Ddinbych | 1,463 | 1,659 | 1,929 | 2,245 | 2,541 |
| Sir y Fflint | 1,972 | 2,340 | 2,811 | 3,332 | 3,827 |
| Wrecsam | 1,719 | 1,991 | 2,354 | 2,793 | 3,216 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Daffodil

2.7 Mae'n anodd iawn cael data cywir ynghylch gwir nifer yr unigolion sydd yn byw gyda dementia neu amhariad ar y cof yng Ngwynedd gan fod nifer fawr sydd yn dod i'n sylw ddim wedi derbyn asesiad na diagnosis swyddogol.

2.8 Mae sicrhau cefnogaeth a gofal i unigolion sy'n byw gyda Dementia yng Ngwynedd yn heriol o ganlyniad i nifer uchel o boblogaeth hŷn yn y Sir a natur ddaearyddol. Mae cymdeithas 'Alzheimers' yn nodi heriau i gefnogi unigolion â dementia mewn ardaloedd gwledig gyda llai o debygolrwydd y caiff gwasanaethau cymorth eu comisiynu yno. Mae cysylltiadau trafnidiaeth gwael yn ei gwneud hi'n anodd cael at gymorth a gwyddom fod gofalwyr yn fwy tebygol o deimlo'n ynysig a bod diffyg cefnogaeth ar gael.

Effaith ar unigolion, teuluoedd a ffrindiau

2.9 Gall byw gyda'r cyflwr dementia gael effaith emosiynol, cymdeithasol, seicolegol ac ymarferol mawr ar berson a'u teuluoedd a ffrindiau.

2.10 Mae'r clefyd yn effeithio yn wahanol ar bob unigolyn. I rai pobl mae effaith y clefyd i'w weld yn syth. I lawer o bobl eraill mae'n arwain at ddirywiad araf a phoenus ac yn gallu arwain at golli popeth sy'n bwysig iddynt. Mae gan y cyflwr dementia nifer o sgil effeithiau, gyda'r mwyafrif y bobl yn wynebu problemau gyda'r cof. Yn ei dro, mae hyn yn arwain at golli hunan barch, hyder, annibyniaeth ac ymreolaeth. Mae'r cyflwr yn cael effaith ar rolau cymdeithasol a pherthnasoedd; y gallu i gyflawni gweithgareddau, hobïau a sgiliau bywyd dyddiol megis gofalu am ofal personol, coginio a gyrru. Gall unigolion hefyd brofi anawsterau cyfathrebu a cholli'r gallu i wneud penderfyniadau penodol ynghylch eu bywyd. Mae'r cyflwr yn gallu arwain at newid mewn personoliaeth unigolyn a gall arwain at ymddygiad heriol tuag at eu hunain ac eraill.

2.11 Mae'r cyflwr Dementia yn effeithio ar deuluoedd a ffrindiau unigolion sydd yn byw gyda'r cyflwr. Mae gofalu am unigolyn sydd yn byw gyda Dementia yn gallu rhoi straen mawr ar ofalwyr ac mae'n bwysig eu cefnogi yn y rôl o ofalu.

<u>Yr Iaith Gymraeg</u>

2.12 Yn achos siaradwyr Cymraeg sy'n byw gyda Dementia, mae derbyn gofal a chymorth yn eu mamiaith neu iaith o'u dewis yn fater o angen clinigol.

<u>Cyd-destun Cenedlaethol</u>

2.13 Gweledigaeth Cynllun Gweithredu Cymru ar Gyfer Dementia 2018-2022 yw "(cenedl sy'n deall dementia ac sy'n cydnabod hawliau pobl â dementia, sy'n eu gwerthfawrogi ac yn eu helpu i fyw mor annibynnol ag y bo modd yn eu cymunedau." Mae'r Adran Oedolion Iechyd a Llesiant yn ymrwymedig i gyflawni gofynion y cynllun ac yn adrodd ar lwyddiannau a'r rhwystrau i Grŵp Sicrwydd Cyflenwi a Gweithredu ar Ddementia.

2.14 Mae Dementia yn thema benodol o fewn Y Rhaglen Genedlaethol Heneiddio'n Dda. Un o nodau'r rhaglen yw "gwneud Cymru'n genedl sy'n cefnogi dementia drwy adeiladu a hyrwyddo cymunedau sy'n cefnogi pobl â dementia". Ein gweledigaeth fel Cyngor yw cefnogi holl bobl Gwynedd i ffynnu ac i fyw bywyd cyflawn yn eu cymuned, mewn Sir sy'n un o'r Siroedd gorau i fyw ynddi. Mae'n flaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor i sicrhau fod gennym wasanaethau gofal sy'n helpu i bobl fyw eu bywydau fel y maent yn dymuno.

3. Cefnogaeth a Gwasanaethau Gwynedd.

3.1 Ein gweledigaeth ydyw darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth amserol i unigolion a dementia yng Ngwynedd. Mae ystod o gefnogaeth ar gael i unigolion sydd â diagnosis o Ddementia sydd yn amrywio o wybodaeth a chefnogaeth gymunedol yn ystod arwyddion cynnar o'r clefyd, gwasanaethau prif lif megis gwasanaethau gofal cartref a gofal dydd i ofal arbenigol dwys ar gyfer cyfnodau olaf y salwch.

<u>Gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o Ddementia</u>

3.2 Mae'r cynllun 'Dementia GO' yn darparu hyfforddiant codi ymwybyddiaeth Cyfeillion Dementia, ac yn hyrwyddo cymunedau Dementia Cyfeillgar. Mae datblygiad technolegol unigryw 'VR' (Virtual

Reality) wedi helpu i godi ymwybyddiaeth o ddementia. Hwn yw'r cyntaf o'i fath yng Nghymru gan ei fod yn dechnoleg ddwyieithog, ac mae'r 'VR' yn cyfleu'r dryswch, a'r hyn y byddai rhywun gyda dementia yn ei deimlo, a'r lleisiau y byddent yn ei glywed.

Byw mor dda â phosib cyhyd a phosib gyda dementia

3.3 Mae'n bwysig iawn i bobl sydd yn byw gyda dementia i aros yn eu cartrefi cyhyd a phosib a'u bod yn cael cymorth i barhau yn saff a diogel yn y cartref. Bydd nifer fawr yn ddibynnol ar deulu a ffrindiau i'w cefnogi ac mae angen sicrhau fod y gofalwyr hyn yn cael seibiant rhesymol o'i rôl gofalu er mwyn parhau i allu gofalu a chael bywyd y tu hwnt i ofalu.

3.4 Mae arian cronfa ICF Llywodraeth Cymru wedi ei ddefnyddio i ehangu'r gefnogaeth 'Cyswllt Dementia' gan Gymdeithas Alzheimers. Mae'r gwasanaeth hwn yn bwynt cyswllt syml sydd yn cysylltu defnyddwyr gwasanaeth, gan gynnwys eu gofalwyr, gyda chefnogaeth ymarferol i'w grymuso i ymdopi gyda'r cyflwr a pharhau i fod yn actif o fewn eu cymunedau. Mae'r gwasanaeth Cyswllt Dementia yn rhoi cefnogaeth i unigolion sydd heb dderbyn diagnosis yn ogystal â'r rhai sydd wedi cael diagnosis o ddementia. Mae 5 elfen i'r gwasanaeth: cefnogaeth dros y ffon; galwadau cadw mewn cyswllt; cefnogaeth arbenigol yn y gymuned; cefnogaeth gwirfoddolwyr i alluogi unigolion i barhau i gymryd rhan yn y gymuned a hunan reoli. Yn ogystal, mae'r Gymdeithas Alzheimers yn darparu cyrsiau ar gyfer gofalwyr, teuluoedd a ffrindiau unigolion sydd â diagnosis o Ddementia i'w cefnogi i ddeall ac ymdopi gyda'r cyflwr, darparu cefnogaeth a gofal a gwybodaeth am faterion cyfreithiol ac ariannol.

3.5 Mae 'Dementia Go' yn wasanaeth gwerthfawr sy'n cefnogi pobl sydd yn byw gyda chyflyrau dwys megis Dementia a Parkinsons. Mae'r Tîm wedi cyflwyno prosiect newydd yn ddiweddar, "Munud i Symud", sef cynllun ymarferion corfforol ysgafn i breswylwyr cartrefi gofal y Cyngor. Mae'r rhaglen waith o weithgareddau amrywiol yn arwain at wythnos mabolgampau blynyddol rhwng y cartrefi.

3.6 Mae'r gwasanaeth 'Galwch Draw' wedi ei sefydlu gydag arian cronfa ICF sy'n canolbwyntio ar ddarparu cefnogaeth i unigolion sydd yn byw gyda dementia a'i gofalwyr trwy gynnig darpariaeth seibiant ac egwyl fer i gefnogi unigolion a dementia a'i gofalwyr yng nghartref cyfranogwyr.

3.7 Mae cyllideb ICF Llywodraeth Cymru hefyd wedi ein galluogi i benodi gweithwyr cefnogol Dementia sydd yn rhan o'r Timau Adnodd Cymunedol ac yn cefnogi unigolion a'r cyflwr dementia a'i gofalwyr i barhau i fyw yn annibynnol yn eu cymunedau.

3.8 Mae darpariaeth gofal dydd arbenigol i unigolion a dementia ar y cyd a Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr yn bodoli yn ardal Llyn a Bangor sydd yn darparu ysbaid i ofalwyr a chefnogaeth glinigol i fonitro cyflwr iechyd yr unigolyn.

3.9 Mae cydnabyddiaeth na fydd yn bosib bob amser i bobl barhau i aros yn eu cartref eu hun. Mae Gwynedd yn awyddus i sicrhau fod pobl gyda dementia yn derbyn y gofal mwyaf addas mor lleol ag sy'n bosib. Mae unedau gofal dementia arbenigol wedi eu sefydlu o fewn nifer o gartrefi

preswyl Cyngor Gwynedd ynghyd ac un cartref preswyl penodol sydd yn darparu gofal ar gyfer unigolion a dementia (Cartref Plas Maesincla). Yn ogystal â gofal hir dymor mae'r unedau yn cynnig gofal dros dro sydd yn rhoi ysbaid i ofalwyr. Mae unedau arbenigol eisoes yn bodoli yng nghartrefi Llys Cadfan, Bryn Blodau, Plas Hafan a Phlas Hedd. Mae cynlluniau ar gyfer datblygiadau pellach yng nghartref Hafod Mawddach yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

4 Camau nesaf

4.1 Byddwn yn parhau i ymrwymo i gyflawni gofynion Cynllun Gweithredu Cymru ar Gyfer Dementia trwy gydweithio gydag unigolion, eu teuluoedd a ffrindiau a'n partneriaid yn y trydydd sector a'r Bwrdd Iechyd.

4.2 Rydym yn ddibynnol ar arian dros dro i gefnogi nifer fawr o'r datblygiadau yn y ddarpariaeth gofal i unigolion a dementia. Yr her fydd sicrhau arian hir dymor i sicrhau cynaladwyedd a datblygiad pellach y gwasanaethau hyn.